
# CYNLLUN RHEOLI ADNODDAU DŴR DRAFFT

Canllaw Cyflym i Gwsmeriaid



**RHAGOR**OL O'R TAP
**WONDER**FUL ON TAP

HAFREN DYFRDWY
severn dee

Darparwn ddŵr yfed glân ac awn â dŵr gwastraff ymaith o 100,000 o gartrefi a busnesau. Bob dydd, cyflenwn bron i 61 miliwn litr o ddŵr yfed glân; mae hynny oddeutu'r un faint ag y byddech yn ei ddefnyddio ar gyfer 20 mil o faddonau.

Cymerwn ddŵr (galwn hyn yn 'tynnu dŵr') o ffynonellau yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru; daw oddeutu dwy ran o dair o'n dŵr o Afon Dyfrdwy a'r traean sy'n weddill o ddyfrdyllau, nentydd a chronfeydd dŵr.

Rydym yn trin y dŵr 'crai' hwn yn un o'n pum gwaith trin dŵr cyn defnyddio'n rhwydwaith 3,000 cilometr o bibelli, 100 o orsafoedd pwmpio ac 85 o gronfeydd storio dŵr glân i'w gael i'ch cartrefi a'ch busnesau.

Fel pob cwmni dŵr, mae arnom angen cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP) yn edrych ar sut mae ein system ddŵr yn gweithio yn awr, a'r buddsoddiadau a'r gweithgareddau y bydd arnom eu hangen i ateb heriau'r ychydig ddegawdau nesaf.

Dyma'n 2ail Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, a byddwn yn parhau i'w adolygu yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, dyma'r tro cyntaf rydym wedi gweithio â chwmnïau a sectorau eraill i ystyried yr effeithiau ehangach yng nghynllun rhanbarthol drafft 'Water Resources West'.

Mae gennym adnoddau dŵr digonol dros y cyfnod hir i ddiwallu'ch anghenion dŵr, ond gwyddom fod arnom angen gwneud mwy i leihau gollyngiadau ac i helpu pawb i ddefnyddio llai o ddŵr.





# BETH YW'R PRIF BETHAU Y MAE ARNOM ANGEN I'N SYSTEM DDŴR EU GWNEUD?

**Helpu i wella'n hamgylchedd lleol.**

**Gwireddu'n haddewid i leihau gollyngiadau 50% erbyn 2050.**

**Parhau i allu ymdopi ag amgylchiadau sychder mwy eithafol (digwyddiad 1 mewn 500 mlynedd) wrth i newid yn yr hinsawdd effeithio arnom i gyd.**

# BETH SYDD AM EFFEITHIO AR EIN SYSTEM DDŴR YN Y DYFODOL?

Newid yn yr hinsawdd, twf poblogaeth, a diogelu a gwella'r amgylchedd yw'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyflenwad a galw.

- Erbyn 2050, disgwyliwn y bydd hafau yn ein rhanbarth ar gyfartaledd 1.1°C yn gynhesach na heddiw, gyda 15% yn llai o law. Golyga hyn hafau poethach, sychach pan fo galw am ddŵr ar ei uchaf. Mae'n debygol y bydd gaeafau'n wlypach, ond gyda digwyddiadau o law trwm mwy eithafol. Mae hyn yn cynyddu'r perygl o lifogydd, ond mae hefyd yn newid ansawdd y dŵr crai rydym yn ei dynnu.

  Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru, rydym wedi defnyddio effaith uwch o newid yn yr hinsawdd o 4°C o gynhesu wrth ddatblygu'n cynlluniau.

- Bydd y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu'n parhau'n eitha' sefydlog.

- Mae gwella'r amgylchedd yn yr ardaloedd lle rydym yn tynnu dŵr yn flaenoriaeth inni oll.

## Petaem yn gwneud dim.

- Byddai gennym er hynny ddŵr digonol i ddiwallu'ch anghenion, ond gwyddom fod arnom angen cymryd llai o ddŵr o'r amgylchedd i helpu i wella'r fioamrywiaeth yn ein rhanbarth. Golyga hyn fod arnom angen canolbwyntio ar fesurau fydd yn lleihau'r galw cyffredinol am ddŵr.



# YR HYN RYDYM YN BWRIADU'I WNEUD DROS Y 25 MLYNEDD NESAF AC YMHELLACH I'R DYFODOL?

Rydym ar hyn o bryd yn cynllunio sut y bydd ein system ddŵr yn ymddangos ac yn gweithredu yn 2050. Mae gennym waith i'w wneud i sicrhau bod ein rhwydwaith yn parhau'n gadarn, ond bydd ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft yn canolbwyntio'n bennaf rhwng hyn a 2050 ar:

**Lleihau gollyngiadau 50% - gan ddefnyddio 6 miliwn litr yn llai y dydd erbyn 2050.**

**Cyflawni gwelliannau amgylcheddol yn Llyn Efyrnwy a ledled ein safleoedd gweithredol.**

**Helpu cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon - gan ddefnyddio 3 miliwn litr yn llai y dydd erbyn 2050.**

I wneud hyn i gyd, mae arnom angen buddsoddi cyfartaledd o £1 filiwn y flwyddyn, yn bennaf ar gyfer ein rhaglen lleihau gollyngiadau.

Mae arnom angen eich cymorth chithau, hefyd. Rydym oll yn defnyddio dŵr mewn gwahanol ffyrdd, a bydd cymryd camau i ddefnyddio pob diferyn yn ddoeth yn helpu i sicrhau bod yna ddigon i bawb am genedlaethau i ddod.



## GWRANDO ARNOCH CHI

Mae'n bwysig eich bod chi'n cael y cyfle i ddweud eich dweud ynglŷn â'n cynlluniau. Rydym eisoes wedi siarad â llawer ohonoch i ddeall beth rydych yn ei feddwl am yr heriau cyfnod hir rydym yn eu hwynebu. Ond croesawn ragor o farnau.

Dyma grynodeb cyflym o'r hyn rydym yn ei wneud, a pham, ond gallwch weld mwy o fanylion yn ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft llawn yn – **www.hdcymru.co.uk**

Gallwch ddweud wrthym beth rydych chi'n ei feddwl drwy anfon e-bost at **water@gov.wales** fydd yn coladu ac yn rhannu pob adborth. Gallwch roi adborth inni am dri mis oddi ar y dyddiad y cyhoeddwn y ddogfen hon.

Byddwn yn adolygu'r holl adborth i fireinio'n blaenoriaethau a'n cyflymder. Byddwn wedyn yn cyhoeddi'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr terfynol yn hydref 2023, a dilynwn hynny'n eitha' cyflym drwy gyflwyno'n cynllun busnes PR24.

Gallwch weld y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Rhanbarthol drafft ar gyfer 'Water Resources West' (WRW) ar wefan WRW **yma.**

Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig
Packsaddle
Ffordd Wrecsam
Rhostyllen
Wrecsam
Clwyd
LL14 4EH
**hdcymru.co.uk**

**RHAGOR**OL O'R TAP
**WONDER**FUL ON TAP

HAFREN DYFRDWY
severn dee